

Gwybodaeth i Gleifion

Pwy yw'r Tîm Sglerosis Ymledol?

Yr Adran Niwroleg

Os oes gennych sglerosis ymledol, bydd yn ddefnyddiol ichi gael gwybod am y gwasanaeth y mae ein tîm yn ei gynnig i bob claf sy'n dioddef o sglerosis ymledol.

Pa wasanaeth y mae'r tîm yn ei gynnig?

Rydym yn ceisio cynnig i chi a'ch teulu yr hyn fydd angen arnoch o ran cefnogaeth, addysg, cyngor a gwybodaeth. Rydym yn cynnig clinigau ymgynghorol arbenigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent, clinig achosion gwaethygu yn Ysbyty Ystrad Fawr a chlinigau dan arweiniad nyrsys yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty'r Sir ac Ysbyty Ystrad Fawr. Os yw'n well gennych, bydd y nyrsys hefyd yn perfformio clinigau dros y ffôn.

Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa. Oherwydd ymrwymadau ein gwasanaeth, gall fod yn anodd cysylltu â ni'n uniongyrchol. Fodd bynnag, mae peiriant ateb ffôn 24 awr ar gael pe dymunech adael neges i ni. Mae gennym hefyd gyfeiriad e-bost y tîm sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd. Byddwn yn ceisio ateb eich galwad/e-bost cyn gynted â phosibl.

Mae ein haelodau tîm yn gweithio yn agos iawn gyda'i gilydd ond mae rôl arbennig yn ein tîm i bob disgyblaeth.

Pa wasanaethau y mae'r aelodau tîm yn eu cynnig?

Niwrolegwyr Ymgynghorol

- Gwneud diagnosis cychwynnol
- Darparu rheolaeth feddygol barhaus o'r symptomau
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd â'r claf ynglyn â thriniaeth bosibl

Nyrsys Arbenigol

- Cynnig cefnogaeth a gwybodaeth gyffredinol ar Sglerosis Ymledol
- Rhoi cyngor ar feddyginiaethau a rheoli symptomau
- Cyflawni triniaethau arbenigol a darparu hyfforddiant amdanynt
- Addysgu a rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol eraill

Ffisiotherapyddion

- Asesu swyddogaeth gorfforol/rhoi cyngor ar ymarfer corff
- Rhoi cyngor ar gymhorthion ac orthoteg
- Rhoi cyngor ar symud a chodi a chario
- Cynnig cyngor penodol ynglyn â symptomau
- Rhoi cyngor ar driniaeth a thrafod lleoliad addas ar ei chyfer

Therapyddion Galwedigaethol

- Asesu gweithgareddau bywyd bob dydd a rhoi cyngor a chyfarpar i'ch helpu i aros yn annibynnol
- Asesiadau eistedd arbenigol ac asesiadau sylfaenol ar gyfer cadeiriau olwyn
- Rhoi cyngor ynglyn â mân addasiadau i gynnal annibyniaeth gartref
- Rheoli blinder a'r cyflwr

Nyrs Ymataliaeth

- Asesiad arbenigol ar gyfer ymataliaeth
- Cynnig cyngor a hyfforddiant ar gyfer problemau ymataliaeth penodol

Pryd dylwn i gysylltu â'r Tîm Sglerosis Ymledol?

- Pan fydd gennych gwestiwn am eich sglerosis ymledol neu'r driniaeth sydd ar gael i chi
- Pan fydd pryderon gennych ynghylch unrhyw symptomau y cewch brofiad ohonynt
- Pan fyddwch yn meddwl eich bod yn cael pwl o'r salwch
- Pan fyddwch yn ei chael hi'n anodd ymdopi gydag unrhyw agwedd ar eich cyflwr Sglerosis Ymledol
- Pan fydd angen cyngor arnoch o ran meddyginiaeth
- Pan fyddwch angen unrhyw fath o wybodaeth am Sglerosis Ymledol

I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth cysylltwch â:

Ymgynghorwyr Arbenigol Sglerosis Ymledol;
Dr. Fady Joseph, Dr. Katharine Harding

Nyrsys Arbenigol Sglerosis Ymledol:
Sarah Palmer, Samantha Jones, Georgina Radford
Rhif Ffôn: 01633 656142

Nyrs Trwytho Sglerosis Ymledol
Kerise Brain

Ysgrifenyddion y Tîm Sglerosis Ymledol;
Tracey Taylor, Shannon Lord
Rhif Ffôn: 01633 234441 / 01633 656128

Cyfeiriad e-bost – multiplesclerosisteam.abb@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth a chymorth Sglerosis Ymledol:

Cymdeithas Sglerosis Ymledol 0808 800 8000
www.mssociety.org.uk

Ymddiriedolaeth Sglerosis Ymledol 0800 032 3839
www.mstrust.org.uk

**“Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English**